Gweiddi

## Tasg 1

# Y Gemau Olympaidd heddiw

1. Yng Ngemau Olympaidd Rio de Janeiro, 2016, roedd:
   - 28 o gampau gwahanol
   - 42 o ddisgyblaethau.

   Mewn grŵp, gwnewch restr o'r campau.

   Tybed oes rhai grwpiau'n gallu enwi'r 28?

   Ewch i'r adran **Atebion** ar ôl gorffen.

2. Faint o'r campau hyn rydych chi'n eu gwneud yn rheolaidd?
   Faint o'r campau hyn rydych chi wedi eu gwneud ond dydych chi ddim yn eu gwneud nawr?

   Trafodwch hyn mewn grŵp, gan roi cymaint o fanylion â phosib, e.e.

   **Campau rydych chi'n eu gwneud yn rheolaidd:**

   ble

   pryd

   barn + rheswm

   Ydych chi'n aelod o dîm?
   Pa dîm? Tîm da?

   **Campau roeddech chi'n eu gwneud ond dydych chi ddim yn eu gwneud nawr:**

   ble

   pryd

   barn + rheswm

   Pam dydych chi ddim yn gwneud y campau hyn nawr?

   Ewch yn ôl i'r darn darllen ar y brif sgrin.